YR ATODLEN

**Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau**

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2004

*Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion gwahardd*

**5.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 22(9) o Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn gwrthodiad gan ATLl i gymeradwyo defnydd penodol o dan adran 22(4)).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn gwahardd (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) hysbysiad o benderfyniad yr ATLl i wrthod caniatáu defnydd penodol o'r cyfan neu ran o'r fangre.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLl.

**6.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 34(2) o Ddeddf 2004 (cais gan lesydd neu lesddeiliad am orchymyn yn terfynu neu'n amrywio les pan fo gorchymyn gwahardd wedi dod yn weithredol).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn gwahardd (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau;

(c) copi o'r les berthnasol; ac

(ch) datganiad o enw a chyfeiriad unrhyw barti arall i'r les ac enw a chyfeiriad unrhyw barti i les isradd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r parti arall i'r les.

**7.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 7(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn gorchymyn gwahardd).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn gwahardd (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) os un o seiliau'r cais yw mai un o'r ffyrdd o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 8(2) o Atodlen 2 i Ddeddf 2004 yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd honno o weithredu a rhesymau'r ceisydd dros farnu mai honno yw'r ffordd orau.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLl.

**8.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn penderfyniad ATLl i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu gorchymyn gwahardd).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn gwahardd (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) copi o benderfyniad yr ATLl i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu (gan gynnwys unrhyw ddogfennau a ddyroddwyd gan yr ATLl mewn cysylltiad â'i hysbysiad o benderfyniad).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLl.